

Datganiad Polisi Disgresiynau y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)

1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024

Fersiwn 1

Math o ddogfen: Polisi

RHAN A

Mae rheoliadau'r CPLIL yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyflogwr

- (i) gyflwyno datganiad polisi ysgrifenedig yn egluro sut y bydd yn arfer yr amrywiol ddisgresiynau a ddarperir gan y cynllun,
- (ii) ei adolygu yn rheolaidd, a
- (iii) ei ddiwygio yn ôl yr angen.

Mae'r ddogfen hon yn bodloni'r gofynion hyn gan nodi gofynion y rheoliadau a phenderfyniad y sefydliad ynglŷn â'r rhain.

Gall y disgresiynau hyn newid, naill ai'n unol ag unrhyw newid i'r rheoliadau neu yn dilyn ystyriaeth briodol gan Gyngor Sir y Fflint. Nid yw'r darpariaethau hyn yn rhoi unrhyw hawl cytundebol.

Polisi Disgresiynau Cyflogwr y CPLIL yw datganiad polisi ysgrifenedig y Cyngor sy'n rhoi manylion yr holl ddisgresiynau cyflogwr gorfodol y mae'r CPLIL yn argymhell i'r cyflogwyr eu cyhoeddi hefyd.

Cyfeirir at rai o'r disgresiynau hyn hefyd mewn polisïau AD perthnasol, er enghraifft, y polisïau Ymddeoliad Hyblyg ac Ymddeoliad Cynnar.

Bydd y datganiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn www.flintshire.gov.uk

Y Rheoliadau y cyfeirir atynt yw:

R: Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'u diwygiwyd)

TP: Rheoliadau CPLIL (Darpariaeth Drosiannol ac Arbedion) 2014

A: Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (**Gweinyddu**) 2008 (fel y'u diwygiwyd)

B: Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 (fel y'u diwygiwyd)

T: Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (**Darpariaethau Trosiannol**) 2008

L: Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 (fel y'u diwygiwyd)

Rheoliadau 2013 a Rheoliadau Trosiannol 2014

Disgresiwn y Cyflogwr		Rheoliad	Polisi CSyFf
Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY) Cost a Rennir	A ddylid, faint, ac o dan pa amgylchiadau y dylid cyfrannu at gynllun CPY cost a rennir.	R16(2)(e) ac R16(4)(d)	Oherwydd y baich posibl o ran cost, ni fydd Cyngor Sir y Fflint yn cyfrannu at gost y gweithiwr (prynu pensiwn ychwanegol).
Estyniad i CPY Rhannu Cost	A ddylid ymestyn y terfyn amser o 30 diwrnod i aelodau ddewis CPY cost a rennir ar ar ôl iddynt ddychwelyd o gyfnod o absenoldeb o'r gwaith gyda chaniatâd heb gyflog pensiynadwy (yn hytrach nag oherwydd salwch neu anaf, absenoldeb sy'n gysylltiedig â phlentyn neu absenoldeb i wasanaethu yn y lluoedd wrth gefn)	R16(16)	Nid yw'n bolisi gan Gyngor Sir y Fflint i ymestyn y terfyn amser o 30 diwrnod
Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Cost a Rennir	A ddylid, faint, ac o dan pa amgylchiadau y dylid cyfrannu at drefniadau Gyfraniadau Ychwanegol Gwirfoddol (CYG) cost a rennir.	R17(1) a'r diffiniad o CYGCR yn RSch 1	Dan Reoliad 17 Rheoliadau CPLIL 2013, bydd Cyngor Sir y Fflint yn arfer ei ddisgresiwn i ganiatáu i aelodau'r CPLIL gyfrannu at gynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol aberthu cyflog cost a rennir.
Hawl i Ad-daliad o'r cyfraniadau mewn achosion o dwyll neu gamymddygiad difrifol	Dim hawl i ad-daliad o'r cyfraniadau os gadawodd yr aelod eu cyflogaeth oherwydd trosedd o natur dwyllodrus neu gamymddygiad difrifol mewn cysylltiad â'r gyflogaeth honno, oni fydd y Cyflogwr yn rhoi cyfarwyddyd i ad-dalu'r cyfan neu ran ohono	R19 (2)	Nid yw'n bolisi gan Gyngor Sir y Fflint i ad-dalu cyfraniadau i'r aelod.
Ymddeoliad Hyblyg	A ellir talu'r holl fuddion neu rai ohonynt os bydd gweithiwr yn lleihau eu horiau neu eu graddfa (ymddeoliad hyblyg)	R30(6) a TP11(2)	Mae gan y Cyngor bolisi ar Ymddeoliad Hyblyg sy'n gofyn am ostyngiad o 20% o leiaf mewn oriau/cyflog heb unrhyw drefniadau oriau llanw.

			<p>Gall gweithiwr sy'n 55 mlwydd oed neu'n hŷn wneud cais am ymddeoliad hyblyg, a bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i unrhyw resymau tosturiol cymhellol a'r holl oblygiadau o ran cyllid a darparu gwasanaeth, drwy banel ymddeol.</p> <p>Nid yw hyn yn rhagwahardd gweithwyr iau na 55 oed sy'n gwneud cais am ymddeoliad hyblyg ond heb dderbyn eu buddiannau ymddeol.</p> <p>Darllenwch y Polisi Ymddeoliad Hyblyg yn llawn.</p> <p>Gall y Cyngor adolygu ei bolisi ar unrhyw adeg.</p>
	A ddylid hepgor, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gostyngiad actiwaraidd ar fuddion a delir ar ymddeoliad hyblyg	R30(8)	Nid yw'n bolisi gan Gyngor Sir y Fflint i hepgor, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, unrhyw ostyngiad actiwaraidd o ganlyniad i Ymddeoliad Hyblyg, onid yw'r gostyngiad actiwaraidd (sy'n codi o'r elfen bensiwn) yn swm rhy fychan i'w ystyried a bod y cais yn bodloni pob maen prawf polisi arall.
Hepgor Gostyngiad Actiwaraidd ar Ymddeoliad Cynnar	A ddylid hepgor, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ostyngiad actiwaraidd ar fuddion y mae aelod yn eu tynnu allan yn wirfoddol cyn oedran pensiwn arferol, ac eithrio ar sail ymddeoliad hyblyg (lle mae'r unigolyn wedi ymaelodi ar ôl 31 Mawrth 2014 yn unig)	R30(8)	<p>Mae gan Gyngor Sir y Fflint bolisi ar Ymddeoliad Cynnar. Wedi pen-blwydd y gweithiwr yn 55 mlwydd oed, gall ymddeol yn wirfoddol a chael ei fuddion gyda gostyngiad actiwaraidd.</p> <p>Caiff gweithiwr wneud cais i Gyngor Sir y Fflint hepgor ei ostyngiad, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, am resymau tosturiol cymhellol yn unig. Gall Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r holl oblygiadau o ran cyllid a darparu gwasanaeth, drwy banel ymddeol.</p>

			Gall y Cyngor adolygu ei bolisi ar unrhyw adeg
Rheol Mlynedd 85	A ddylid 'gweithredu' y rheol 85 mlynedd ar gyfer aelod sy'n tynnu buddion allan yn wirfoddol yn 55 oed neu wedi hynny, ond cyn troi'n 60 oed (ac eithrio ar sail ymddeoliad hyblyg)	TPSch 2, para 1(2) ac 1 (1c)	<p>Gall gweithwyr wneud cais i'r Cyngor weithredu'r Rheol 85 Mlynedd os ydynt yn gymwys.</p> <p>Er mwyn bod yn gymwys, mae'n rhaid i Wasanaeth CPLIL (holl wasanaeth) y gweithiwr a'i oedran fod yn hafal i 85 mlynedd neu fwy, ac mae'n rhaid iddo fod wedi ymuno â'r cynllun pensiwn cyn 1 Hydref 2006.</p> <p>Ar ôl troi'n 55 oed, gall aelodau gohiriedig gael gafael ar eu buddion pensiwn gohiriedig yn gynnar heb ganiatâd y cyflogwyr, ond bydd eu hincwm pensiwn yn gostwng ar ôl tynnu'r gostyngiad actiwaraid.</p> <p>Gall y Cyngor adolygu ei bolisi ar unrhyw adeg.</p>
Hepgor Gostyngiad Actiwaraid	<p>A ddylid hepgor, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, unrhyw ostyngiad actiwaraid ar gyfer aelod sy'n tynnu buddion allan yn wirfoddol cyn oedran pensiwn arferol, ac eithrio ar sail ymddeoliad hyblyg (lle mae'r unigolyn yn aelod ers cyn 1 Ebrill 2014 ac ar ôl 31 Mawrth 2014):</p> <p>a) am resymau tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar unrhyw sail (aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2014) os nad oedd yr aelod yn rhan o'r Cynllun cyn 1 Hydref 2006,</p> <p>b) am resymau tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar unrhyw sail</p>	B30(5) a B30A(5)	<p>Os cytunir i weithredu'r 'Rheol 85 Mlynedd', gall Cyngor Sir y Fflint hepgor y gostyngiad actiwaraid yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn dilyn ystyriaeth ofalus o'r goblygiadau ariannol a fforddiadwyedd.</p> <p>Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun gan gynnwys unrhyw resymau tosturiol cymhellol ac ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r holl oblygiadau o ran cyllid a darparu gwasanaeth, drwy banel ymddeol.</p> <p>Gall y Cyngor adolygu ei bolisi ar unrhyw adeg.</p>

	<p>(aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2014) os oedd yr aelod yn rhan o'r Cynllun cyn 1 Hydref 2006, os nad yw wedi troi'n 60 erbyn 31 Mawrth 2016 ac os na fydd yn troi'n 60 oed rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2020, gan gynnwys y dyddiadau hynny.</p> <p>c) am resymau tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2016) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar unrhyw sail (aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2016) os oedd yr aelod yn rhan o'r Cynllun cyn 1 Hydref 2006, ac yn 60 oed erbyn 31 Mawrth 2016,</p> <p>d) am resymau tosturiol (aelodaeth cyn 1 Ebrill 2020) ac yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar unrhyw sail (aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2020) os oedd yr aelod yn rhan o'r Cynllun cyn 1 Hydref 2006, os nad yw wedi troi'n 60 erbyn 31 Mawrth 2016 ac os bydd yn troi'n 60 oed rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2020, gan gynnwys y dyddiadau hynny.</p>		
Caniatáu Pensiwn Ychwanegol	A ddylid caniatáu pensiwn ychwanegol i aelod gweithredol neu o fewn 6 mis iddo roi'r gorau i fod yn aelod gweithredol o ganlyniad i ddileu swydd neu effeithlonrwydd busnes (o hyd at £6,500 y flwyddyn ar 1 Ebrill 2014 – caiff y ffigwr hwn ei addasu o ran chwyddiant bob blwyddyn)	R31	Nid yw'n bolisi gan Gyngor Sir y Fflint dyfarnu pensiwn ychwanegol.
Trosglwyddo hawliau pensiwn heb	Ymestyn y terfyn amser arferol ar gyfer derbyn trosglwyddiad y tu hwnt i 12 mis ers ymuno â'r CPLIL	R100(6)	Nid yw'n bolisi gan Gyngor Sir y Fflint ystyried ymestyn y terfyn amser i drosglwyddo hawliau

fod yn rhai CPLIL			pensiwn blaenorol i mewn ar ôl cyfnod o deuddeg mis.
Cyfradd Cyfraniadau'r Gweithiwr	Pennu cyfradd cyfraniadau'r gweithiwr ac adolygu'r band cyfraniadau pensiwn y mae gweithiwr wedi'i glustnodi iddo yn dilyn newid o bwys sy'n effeithio ar gyflog pensiynadwy y flwyddyn yr aelod.	R9(1) ac R9(3)	Bydd y gyfradd cyfraniadau haenog ar gyfer pob gweithiwr yn seiliedig ar elfennau'r cyflog pensiynadwy. Caiff cyflog sylfaenol ei asesu ar y gyfradd gyfwerth ag amser llawn y mhob swydd y mae gweithiwr y ei dal ar 1 Ebrill. Caiff cyfradd y cyfraniadau ei hailasesu bob blwyddyn pan weithredir/gymhwysir y dyfarniad cyflog blynyddol (ni waeth pryd y gwneir y dyfarniad). Bydd yn cael ei ailasesu ar unrhyw adeg yn y flwyddyn pan fydd newid o bwys, er enghraifft:- dyrchafiad, israddiad, cynnydd cynyddrannol.

Rheoliadau Diwygiedig 2018

Disgresiwn y Cyflogwr		Rheoliad	Polisi CSyFf
Buddion Gohiriedig	A ddylid caniatáu ceisiadau i dalu buddion pensiwn yn gynnar yn 50 oed neu wedi hynny, ond cyn troi'n 55.	R31(2) Rheoliadau CPLIL 1997	Nid yw'n bolisi gan y Cyngor i ganiatáu ceisiadau am fuddion gohiriedig yn 50 oed neu wedi hynny, ond cyn troi'n 55.

Rheoliadau (Gweinyddu) Cynllun 2008 a Rheoliadau 2007

Disgresiwn y Cyflogwr		Rheoliad	Polisi CSyFf
Buddion Gohiriedig	A ddylid hepgor, am resymau tosturiol, y gostyngiad actiwaraidd a weithredir ar fuddion gohiriedig a delir yn gynnar dan B30 (aelod)	B30(5), TPSch 2, para 2(1)	Yn arferol, ni fydd y Cyngor yn hepgor unrhyw ostyngiad actiwaraidd ar gyfer aelodau gohiriedig am resymau tosturiol.
	A ddylid 'gweithredu' y rheol 85 mlynedd ar gyfer aelod-bensynwr â buddion gohiriedig sy'n tynnu buddion allan yn wirfoddol yn 55 oed neu wedi hynny, ond cyn troi'n 60 oed	TPSch 2, para 1(2) ac 1(1c)	Ni fydd y Cyngor yn 'gweithredu' y rheol 85 mlynedd.

Rheoliadau Cynlluniau 1997 ac 1995

Disgresiwn y Cyflogwr		Rheoliad	Polisi CSyFf
Buddion Gohiriedig	A ddylid caniatáu ceisiadau i dalu buddion pensiwn gohiriedig yn gynnar yn 50 oed neu wedi hynny, ond cyn y dyddiad ymddeol arferol am resymau tosturiol.	TP3 (5A) (vi)TL4, L106(1) a D11(2c)	Nid yw'n bolisi gan y Cyngor i ganiatáu ceisiadau am fuddion gohiriedig yn 50 oed neu wedi hynny, ond cyn troi'n 55.

Nodir y polisi ar gyfer pob un o ddisgresiynau'r cyflogwr uchod, ond gall y Cyngor roi ystyriaeth bellach iddynt dan amgylchiadau eithriadol a phan fo haeddiant amlwg, neu pan na ystyrir fod y gost yn sylweddol nac o bwys.